**Creu'r Diwylliant Cywir: Ymchwiliad i'r Adolygiad o God Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad**
**Ymateb i'r Ymgynghoriad gan Cymorth i Ferched Cymru**
**Dyddiad cau: 31.01.18**

| | |
|---|---|
| **Enw:** | *Hilary Watson, Swyddog Polisi ac Ymchwil* |
| **Sefydliad:** | *Cymorth i Ferched Cymru* |
| **Cyfeiriad ebost:** | *HilaryWatson@welshwomensaid.org.uk* |
| **Rhif ffôn:** | *02920 451 551* |
| **Cyfeiriad:** | *Tŷ Pendragon, Caxton Place, Pentwyn, Caerdydd CF23 8XE* |
| **Dyma farn:** | *Cymorth i Ferched Cymru (Trydydd Sector) - yr elusen genedlaethol yng Nghymru sy'n gweithio i ddileu cam-drin domestig a phob math o drais yn erbyn menywod.* |

**Am Cymorth i Ferched Cymru**

Cymorth i Ferched Cymru yw'r sefydliad ymbarél cenedlaethol yng Nghymru i aelodau sy'n cefnogi ac yn darparu cynrychiolaeth genedlaethol i 27 o wasanaethau arbenigol yn y trydydd sector sy'n gweithio i ddileu cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) yng Nghymru (ein haelodaeth o wasanaethau arbenigol).[1] Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu cymorth sy'n achub ac yn newid bywydau a gwaith ataliol mewn ymateb i drais yn erbyn menywod, gan gynnwys cam-drin domestig a thrais rhywiol, fel rhan o ddarpariaeth rhwydwaith yn y DU.

Fel corff ymbarél, ein prif ddiben yw atal cam-drin domestig a phob math o drais yn erbyn menywod a sicrhau gwasanaethau ansawdd uchel i oroeswyr sy'n cael eu harwain gan anghenion, yn ymateb i rywedd ac yn gyfannol. Rydym ni'n cydweithio'n genedlaethol i integreiddio a gwella ymatebion cymunedol ac ymarfer yng Nghymru; rydym ni'n darparu cyngor, ymgynghoriaeth, cymorth a hyfforddiant i gyflawni gwelliannau polisi a gwasanaeth ar draws gwasanaethau'r llywodraeth, y sector cyhoeddus, preifat a thrydydd sector ac mewn cymunedau, er budd goroeswyr. Mae hyn yn cynnwys cynghori a chefnogi comisiynwyr ac arweinwyr strategol wrth ddatblygu asesiadau anghenion a chynlluniau strategol VAWDASV, hyrwyddo tystiolaeth ar gyfer modelau gwasanaeth newydd arloesol, a chefnogi ymchwil i atal cam-drin.

Mae rhai o'r gwasanaethau ymbarél niferus a gyflwynwn i'n haelodau'n cynnwys hwyluso ymwneud aelod wasanaethau â datblygiadau polisi, deddfwriaethol a strategol perthnasol ac annog cyd-gynhyrchu wrth ddatblygu gwasanaeth; darparu cyngor a gwybodaeth ar ddatblygiad a chyflawni ymarfer addawol yn y sector; darparu cymorth gyda materion polisi ac ymarfer, ac adroddiadau

[1] Ein haelodaeth sef 27 o wasanaethau arbenigol VAWDASV yng Nghymru, y mae gennym bartneriaeth genedlaethol gyda nhw i sicrhau bod ein gwaith yn cael ei gydlynu a'i integreiddio: *BAWSO, Hafan Cymru, Cymru Ddiogelach gan gynnwys Prosiect Dyn, Llamau, Cymorth i Ferched Caerdydd, Cyfannol, Safer Merthyr Tudful, Cymorth i Ferched Casnewydd, Cymorth i Ferched Port Talbot & Afan, Cymorth i Ferched Abertawe, Threshold, Atal Y Fro, Cymorth i Ferched RCT, Calan DVS, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Caerfyrddin, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru, Canolfan Argyfwng Teuluol Maldwyn, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Aberconwy, Cymorth i Ferched Bangor a'r Ardal, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Cymdeithas Tai Clwyd Alyn, Uned Diogelwch Cam-drin Domestig (DASU), Cymorth i Ferched Glyndŵr, Gorwel (Grŵp Cynefin) a Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gogledd Sir Ddinbych (NDDAS).*

dadansoddi data rhanbarthol a chenedlaethol i gefnogi asesiadau lleol o anghenion, datblygiadau strategaeth a chomisiynu.

Rydym ni hefyd yn cyflwyno gwasanaethau uniongyrchol gan gynnwys Llinell Gymorth Byw Heb Ofn a gyllidir gan Lywodraeth Cymru; Gwasanaeth Hyfforddi Cenedlaethol; rhaglen waith genedlaethol Mae Plant yn Bwysig sydd, er enghraifft, yn cefnogi gwasanaethau lleol i helpu plant a phobl ifanc sydd wedi'u heffeithio gan gam-drin a chyflwyno rhaglenni Diogelwch, Ymddiriedaeth a Pharch (STAR) ar draws Cymru, a gwasanaethau lloches ac eiriolaeth ym Mae Colwyn a Wrecsam. Rydym ni'n peilota'r Gwasanaethau Goroeswyr yn Grymuso ac Addysgu (SEEdS), sy'n grymuso goroeswyr trais a cham-drin i ddylanwadu ar wasanaethau a fframweithiau comisiynu, a helpu i newid agweddau cyhoeddus a chymunedol. Rydym ni hefyd yn gweithredu Safonau Gwasanaeth Cenedlaethol Cymru, sy'n fframwaith achredu i wasanaethau arbenigol cam-drin domestig yng Nghymru (gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru) fel rhan o gyfres o systemau a fframweithiau achredu integredig yn y DU. (Ceir rhagor o wybodaeth am y Safonau yma: http://www.welshwomensaid.org.uk/what-we-do/our-members/standards/)

**Ymateb Cymorth i Ferched Cymru**

Fel y corff ymbarél ar gyfer gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru, mae ein hymateb yn seiliedig ar ymgynghori yn fewnol a gyda'n haelodaeth o wasanaethau arbenigol ac mae'n adlewyrchu profiadau ar draws pob rhanbarth. Yn ogystal â hynny, rydym yn ymgynghori gyda goroeswyr cam-drin drwy brosiect SSEdS Cymorth i Ferched Cymru (Gwasanaethau Goroeswyr yn Grymuso ac Addysgu).

Mae ymateb Cymorth i Ferched Cymru yn ymwneud yn bennaf â materion am brosesau a chwynion mewn perthynas â phob math o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, gan gynnwys aflonyddu rhywiol a bygwth yn y gwaith. Hoffem bwysleisio bod aflonyddu rhywiol yn fath o drais yn erbyn menywod ac y dylid ei drin gyda'r difrifoldeb mwyaf. Mae Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru 2016-2021[2] yn diffinio trais yn erbyn menywod a merched ifanc yn unol â diffiniad Datganiad y Cenhedloedd Unedig o drais yn erbyn menywod[3]:

- **Pob achos o drais sy'n seiliedig ar rywedd** sy'n arwain at, neu'n debygol o arwain at, niwed neu ddioddef corfforol, rhywiol, seicolegol, neu economaidd i ferched, gan gynnwys bygythiadau o achosion o'r fath, gorfodi neu amddifadu rhywun o'i rhyddid yn fympwyol, p'un a yw hynny'n digwydd mewn bywyd cyhoeddus neu fywyd personol.

- Mae hyn yn cynnwys y canlynol, ond nid yn gyfyngedig i'r rhain:
  (a) Trais corfforol, rhywiol a seicolegol sy'n digwydd yn y teulu, gan gynnwys curo, cam-drin plant benywaidd yn y cartref yn rhywiol, trais yn ymwneud â gwaddol, trais priodasol, anffurfio organau cenhedlu benywod ac arferion traddodiadol eraill sy'n niweidiol i fenywod, trais nad yw'n briodasol a thrais yn ymwneud â cham-fanteisio;

[2] Llywodraeth Cymru, 'Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol - 2016-2021', *Llywodraeth Cymru,* 2016.
[3] http://www.un.org/documents/ga/res/48/a48r104.htm.

(b) Trais corfforol, rhywiol a seicolegol sy'n digwydd yn y gymuned gyffredinol, gan gynnwys trais, cam-drin rhywiol, **bygythiadau** ac **aflonyddu rhywiol yn y gwaith,** mewn sefydliadau addysgol ac mewn mannau eraill, masnachu menywod a phuteindra dan orfod;

(c) Trais corfforol, rhywiol a seicolegol a gyflawnir neu a oddefir gan y Wladwriaeth, lle bynnag y mae'n digwydd.

**Cwestiwn 1:**

1. **A fyddech yn teimlo'n gyfforddus yn gwneud cwyn am Aelod Cynulliad neu rywun sy'n gweithio ar ystâd y Cynulliad? Os na, pam ddim?**

1.1 Pan ofynnodd Cymorth i Ferched Cymru i aelodau a goroeswyr p'un a ydynt yn teimlo'n gyfforddus yn gwneud cwyn am Aelod Cynulliad (AC) neu rywun sy'n gweithio ar ystâd y Cynulliad, roedd yr ymatebion yn amrywiol. Er i rai ymatebwyr ddweud y byddent yn teimlo'n gyfforddus (er nad oeddent wedi cael llawer o gyswllt ag ACau), dywedodd eraill na fyddent yn gyfforddus. Er enghraifft:

> *"Na. Ni wnaethant ymchwilio i'r cwynion diweddar a wnaed [ynghylch Carl Sargeant] felly ni fyddwn i'n hyderus y byddent yn cymryd cwynion o ddifrif." gwasanaeth arbenigol*

1.2 Mae'r trydydd sector yng Nghymru yn rhoi pwys sylweddol ar ymgysylltu llwyddiannus gydag Aelodau Cynulliad lleol a rhanbarthol, a chael cefnogaeth drawsbleidiol gan y rhain. Gallai hyn fod ar ffurf codi materion mewn perthynas â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol fel etholwyr, fel eiriolwyr i oroeswyr camdriniaeth, neu drwy ddal Llywodraeth Cymru yn atebol am gyflwyno deddfwriaeth neu strategaeth. Fodd bynnag, mae nifer o'r sefydliadau hyn hefyd yn cael eu hariannu, yn rhannol, gan Lywodraeth Cymru, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Felly, codwyd pryderon gyda ni am ganlyniadau bwriadol neu anfwriadol herio pobl mewn grym neu bobl sy'n agos i'r rhai hynny sydd mewn grym. Mae'n bosibl y gall unigolion deimlo y gallent niweidio sefyllfa eu sefydliad a'r goroeswyr maen nhw'n gweithio â nhw bob dydd i'w gwarchod trwy wneud cwyn ffurfiol.

1.3 Mae beio dioddefwyr hefyd yn ffactor arall i'w ystyried. Hyd yn oed os yw anhysbysrwydd yn cael ei ddiogelu, gallai siawns o adlach wir neu ganfyddedig yn erbyn goroeswyr cam-drin ddarbwyllo pobl rhag bod eisiau adrodd am unrhyw gwynion am Aelod Cynulliad neu rywun sy'n gweithio yn ystâd y Cynulliad. Er bod enwau'n cael eu cadw'n gyfrinachol, nid yw'r canlyniadau'n cael eu cadw'n gyfrinachol a gall sylw i'r ACau yn y cyfryngau arwain at y cyfryngau a'r cyhoedd ehangach yn beirniadu cwynion unigol er gwaethaf y ffaith nad ydynt yn meddu ar holl ffeithiau'r achos. Yn anffodus roedd hyn yn wir ar gyfer merched oedd yn gysylltiedig â'r cwynion diweddar am y diweddar Carl Sargeant, ac er eu bod yn ddienw, roedd tystiolaeth o feio dioddefwyr yn gyhoeddus a allai atal merched rhag mynd ar ôl cwynion neu rhag dod ymlaen yn y dyfodol. Wrth gwrs mae hefyd yn bosibl y gallai gwybodaeth sy'n cael ei rhyddhau arwain at sylw uniongyrchol ar-lein a gan y cyfryngau, gan gynnwys aflonyddu ar-lein, trolio a pheri niwed corfforol a seicolegol i'r rhai hynny sy'n datgelu unrhyw gwynion.

1.4 Mae hefyd yn werth nodi y gallai gweithwyr y Cynulliad sy'n gweithio'n agos gydag ACau, ac sydd â dyheadau personol i adeiladu eu gyrfaoedd gwleidyddol eu hunain, fod â phryderon y gallai gwneud cwyn gau drysau mewn perthynas â'u rhagolygon gyrfa yn y dyfodol. Mae'r sgandal diweddar am aflonyddu rhywiol a thrais rhywiol yn San Steffan yn taflu goleuni ar y mater hwn sy'n aml yn gudd. Er enghraifft, mae un ymgyrchydd Llafur sydd wedi ildio ei hawl i fod yn ddienw wedi siarad am sut y cafodd ei threisio mewn digwyddiad y blaid yn 2011 gan aelod uwch o'r blaid ac iddi gael ei hannog gan swyddog i beidio hysbysu unrhyw un am y drosedd oherwydd y gallai effeithio ar ei gyrfa.[4] Mae

[4] R. Mason, et al. 'Labour activist says she was raped at party event and told not to report it', *The Guardian,* 1 Tachwedd 2017, https://www.theguardian.com/world/2017/oct/31/labour-activist-says-she-was-raped-at-party-event-and-told-not-to-report-it, (cyrchwyd 26 Ionawr 2018).

Tŷ Pendragon, Caxton Place | Pentwyn, Caerdydd | CF23 8XE
Ffôn: 02920 541551 | Ffacs: 02920 736128 |
Ebost: info@welshwomensaid.org.uk | Gwefan: www.welshwomensaid.org.uk
Rhif Elusen Gofrestredig: 1140962


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

enghreifftiau di-rif eraill o honiadau o aflonyddu rhywiol yn cael eu gwneud yn erbyn gwleidyddion grymus nas adroddwyd amdanynt, ac yn sicr mwy fydd yn aros yn gudd.

1.5 Mae'r Cynulliad yn destun craffu yn gyson ac mae'n gweithredu yn llygad y cyhoedd. Mae unrhyw sylw yn y cyfryngau ynghylch cwynion honedig a chamau gweithredu neu ddiffyg camau gweithredu dilynol yn dylanwadu'n uniongyrchol ar ganfyddiad y cyhoedd o sut y caiff cwynion eu trin a chanlyniadau gwneud cwyn a chael eu dal yn atebol am dorri cod ymddygiad. Os oes gweithrediadau cyfreithiol a bod y canlyniadau'n cael eu hystyried yn annigonol, mae'n effeithio ar ymddiriedaeth y cyhoedd yn y broses ac yn y pen draw yn gwneud drwg i enw da'r sefydliad.

**Cwestiwn 2:**

2. **A fyddech yn gwybod sut i wneud cwyn am Aelod Cynulliad neu rywun sy'n gweithio ar ystâd y Cynulliad?**

2.1 Na, mae'r broses i'w gweld yn ddryslyd. Mae'n ymddangos bod llawer o gyngor gwahanol ac anghyson o ran sut i wneud cwyn am Aelod Cynulliad neu unrhyw aelod arall o staff y Cynulliad. Nododd un ymatebwr *"Ddim yn union, er fy mod wedi edrych ar y wefan. Mae'n edrych yn hirwyntog iawn".* Er enghraifft, ymddengys fod o leiaf pedair ffordd wahanol o wneud cwyn am AC ac mae'n aneglur pa un i'w defnyddio ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd:

1. Cwynion am yr holl ACau i'r Comisiynydd Safonau;
2. Cwynion am ACau yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru os oedden nhw'n gweithio ar ran Llywodraeth Cymru ar y pryd;
3. Gwneud cwyn i blaid yr ACau (yn amlwg, nid yw hyn ar gael i'r rhai hynny sy'n annibynnol);
4. Cyngor am gwyno drwy gyfeiriad ebost DignityandRespect@assembly.wales, fel y nodwyd yn y datganiad Urddas a Pharch ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

2.2 Mae angen symleiddio'r broses i'w gwneud mor hawdd â phosibl i wneud cwyn, fel bod pawb sy'n teimlo yr hoffent wneud hyn yn teimlo'n hyderus yn y broses, megis system 'un porth' ar gyfer cwynion.

2.4 Er bod Cymorth i Ferched Cymru yn cymeradwyo bod darpariaeth llinell gymorth gyfrinachol ar gyfer cyngor ar gael i staff mewnol y Cynulliad, yn ogystal â'r llinell gymorth cwnsela sydd ar gael i'r rhai hynny nad ydynt yn barod i wneud cwynion, mae angen bodloni safon uchel y gwasanaeth hwn. Yn ymarferol, mae angen i Gynulliad Cenedlaethol Cymru sicrhau bod y rhai sy'n gweithio ar y llinell gymorth yn deall aflonyddu rhywiol - yng nghyd-destun ehangach VAWDASV - ac yn cyfeirio goroeswyr at wasanaethau VAWDASV arbenigol priodol a sicrhau bod y rhai sy'n rhedeg y llinell gymorth wedi derbyn hyfforddiant effeithiol yn y maes hwn.

2.5 Mae'n anffodus nad yw'r gwasanaeth hwn neu wasanaethau tebyg ar gael i'r rhai hynny nad ydynt yn gweithio i'r Cynulliad mewn unrhyw gapasiti. Byddem hefyd yn argymell fod *llinell gymorth Byw Heb Ofn Cymru* a gyllidir gan Lywodraeth Cymru yn cael ei hyrwyddo fel bod unrhyw un sy'n bwriadu gwneud cwyn mewn perthynas ag aflonyddu rhywiol ac unrhyw fathau eraill o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig neu drais rhywiol, yn gallu manteisio ar gymorth cyfrinachol, annibynnol drwy'r gwasanaeth 24 awr yng Nghymru.

Tŷ Pendragon, Caxton Place | Pentwyn, Caerdydd | CF23 8XE
Ffôn: 02920 541551 | Ffacs: 02920 736128 |
Ebost: info@welshwomensaid.org.uk | Gwefan: www.welshwomensaid.org.uk
Rhif Elusen Gofrestredig: 1140962

**Argymhelliad:**

- ***Sicrhau bod gan y rhai hynny sy'n gweithio ar hyn o bryd ar y llinell gymorth gyfredol a staff gwasanaethau cwnsela Cynulliad Cenedlaethol Cymru rywfaint o ddealltwriaeth o aflonyddu rhywiol fel math o drais yn erbyn menywod a lle bo'n briodol, eu bod yn cyfeirio goroeswyr at wasanaethau VAWDASV arbenigol.***

- ***Dylid cyfeirio unigolion at linell gymorth Byw Heb Ofn Cymru pan fydd eu cwyn yn ymwneud ag unrhyw fath o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig neu drais rhywiol - gan gynnwys aflonyddu rhywiol.***

**Cwestiwn 3:**

3. **A ydych yn teimlo bod unrhyw beth yn eich rhwystro rhag codi pryderon am ymddygiad amhriodol Aelod Cynulliad neu rywun sy'n gweithio ar ystâd y Cynulliad?**

3.1 Dywedodd un o'n haelodau:

*"Mae'r ymgynghoriad hwn yn awgrymu bod eraill o bosibl wedi wynebu rhwystrau ac felly mae'r adolygiad hwn yn amserol ac yn briodol er mwyn nodi p'un a ellir gwella'r system. Byddwn yn dymuno gallu mynd at rywun i'm helpu i eirio'r cwyn er mwyn iddo gydymffurfio â'r canllawiau."*

3.2 Rydym yn teimlo bod nifer o bethau'n rhwystro pobl rhag codi pryderon am ymddygiad amhriodol ACau neu rywun sy'n gweithio ar ystâd y Cynulliad, rhai ohonynt yn gyffredin mewn gweithleoedd pŵer uchel a phroffil uchel, ac eraill sy'n cael eu gwaethygu gan y prosesau presennol. Amlygodd un ymatebwr i'n harolwg y *"diffyg ymchwiliad i gwynion blaenorol a wnaed"* fel pryder a rhwystr i wneud cwynion yn y dyfodol neu hyder yn y system.

3.3. Fel yr amlygwyd yn flaenorol, gallai'r teimlad y bydd cwyno'n arwain at effeithiau gwleidyddol i unigolyn, sefydliad neu sector oherwydd pŵer y person mae'r cwyn amdano/amdani fod yn rhwystr arall i wneud cwyn. Gallai hyn fod ar sawl ffurf:

1. gallai materion amlwg sy'n ymwneud â gwaith yr achwynydd fel VAWDASV ddiflannu oddi ar agenda gwleidyddol Llywodraeth Cymru, aelodau mainc gefn neu ACau gwrthbleidiau;
2. Gallai gweithwyr sefydliadau penodol deimlo y gallai cwyn fygwth cyllideb eu sefydliad neu y gallent golli sicrwydd eu swydd;
3. gallai'r goroeswr deimlo na fyddai unrhyw un yn eu credu oherwydd grym y person dan sylw.

3.4 Hefyd, gallai achwynydd deimlo bod diffyg eglurder ynghylch y broses a ddefnyddir, sydd, fel y nodwyd eisoes *"yn ymddangos yn hirwyntog".* Ymddengys hefyd bod diffyg gwybodaeth mewn perthynas â pholisïau aflonyddu rhywiol a pholisïau'n ymwneud â thrais yn erbyn menywod yn y Cynulliad. Er bod llinell gymorth i weithwyr mewnol, nid oes cymorth o'r fath i bobl allanol a allai ddymuno gwneud cwyn neu dderbyn cymorth. Byddai mwy o wybodaeth mewn perthynas â Chod Ymddygiad ACau hefyd yn ei gwneud yn gliriach pan fydd y cod hwn yn cael ei dorri. Ar hyn o bryd mae diffyg canllawiau wedi'u gosod mewn perthynas â sut mae disgwyl i ACau a staff y Cynulliad ymddwyn yn fewnol ac yn allanol.

3.5 Nid yw Cymorth i Ferched Cymru yn credu bod y cyfyngiad o flwyddyn i wneud cwynion yn foddhaol. Ar gyfer materion sy'n ymwneud â thrais yn erbyn menywod, mae goroeswyr yn aml angen cryn dipyn o amser i brosesu eu profiadau negyddol a gallu teimlo'n ddiogel ac yn abl i'w datgelu. Felly, gallai goroeswyr ddewis peidio â dweud wrth unrhyw un am eu profiadau am gryn amser, ac yn aml byddant yn eu datgelu flynyddoedd wedi i'r cam-drin ddigwydd. Rydym yn credu y dylai ACau ac eraill sy'n gweithio ar ystâd y Cynulliad gael eu dal i gyfrif gan y Cynulliad am eu hymddygiad yn ystod cyfnod eu gwasanaeth.

3.6 Mae materion eraill yn unigryw i'r Cynulliad o ran bod ACau yn cael eu hethol bob pum mlynedd ac ar hyn o bryd, fod yr holl achosion o gwynion yn cael eu rhewi yn ystod y broses ethol. Er y gallai cwynion gael eu hail-ddechrau os yw'r AC dan sylw yn cael ei ail-ethol, ar gyfer y rhai hynny nad ydynt yn cael eu hail-ethol nid oes gan y Cynulliad y pwerau i fynd ar drywydd y mater ymhellach. Yr hyn sy'n gwneud y Cynulliad yn gymharol unigryw yw y gallai'r AC dan sylw gael ei ail-ethol bum mlynedd yn ddiweddarach. Byddai Cymorth i Ferched Cymru yn hoffi gweld cofnod o gwynion sydd wedi'u rhewi yn ystod etholiad, fel bod y rhain yn cael sylw pe byddai'r aelodau'n cael eu hail-ethol yn y dyfodol.

3.7 Er bod gan AC hawl i apelio penderfyniad, ymddengys nad oes gan achwynydd yr hawl i apelio os ydynt yn anghytuno gyda'r penderfyniad. Ar hyn o bryd nid oes gan yr achwynydd y gallu i ddod ag achosion i ben neu apelio penderfyniad sy'n canfod bod y cod ymddygiad wedi cael ei dorri, ond ei fod yn cael ei ystyried yn llai difrifol na'r hyn y mae'r achwynydd yn ei gredu sy'n wir. Nid yw hyn yn ymddangos yn gymesur nac yn gyfiawn ac mae'n dangos anghydbwysedd hawliau, er enghraifft, rhwng gweithiwr mewnol ac achwynydd allanol neu yn wir achwynydd mewnol yn hysbysu am gŵyn mewnol.

3.8 Mae'n rhaid ystyried a rhoi sylw i rwystrau o ran cydraddoldeb a hygyrchedd y broses ar gyfer y rhai hynny â nodweddion gwarchodedig amrywiol a'r rhai sy'n wynebu rhwystrau cyffredin er mwyn i'w llais gael ei glywed. Er enghraifft, mae angen amddiffyniadau penodol yn erbyn pobl gyda nodweddion gwarchodedig fel sydd wedi'u hamlinellu yn Neddf Cydraddoldeb 2010, yn ymwneud ag oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol. Yn ogystal â hynny, mae angen darparu ar gyfer y rhai hynny sydd â rhwystrau cyfathrebu neu iaith neu anghenion ychwanegol, er mwyn sicrhau bod canllawiau a'r broses o wneud cwyn yn hygyrch i bawb, waeth beth fo'u hangen penodol.

**Argymhelliad:**

- ***Newid y cyfyngiad un flwyddyn i hyd y Cynulliad ac un flwyddyn cyn ail-ethol o leiaf, os yw'n berthnasol. Hefyd, dylai gweithdrefnau cwyno a ollyngwyd oherwydd nad yw AC yn cael ei ail-ethol gael eu cadw ar ffeil fel bod hyn yn aros ar eu cofnod am flwyddyn os yw'r AC yn cael ei ail-ethol yn y dyfodol.***

- ***Bod polisïau a gweithdrefnau priodol yn eu lle ac yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol i sicrhau nad oes unrhyw beth yn rhwystro pobl gyda nodweddion gwarchodedig, a'r rhai hynny gydag anghenion iaith penodol ac ati, rhag gwneud cwyn.***

Tŷ Pendragon, Caxton Place | Pentwyn, Caerdydd | CF23 8XE
Ffôn: 02920 541551 | Ffacs: 02920 736128 |
Ebost: info@welshwomensaid.org.uk | Gwefan: www.welshwomensaid.org.uk
Rhif Elusen Gofrestredig: 1140962



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cwestiwn 4:**

4. **A oes gennych unrhyw awgrymiadau ynghylch sut y gellid symleiddio'r weithdrefn gwyno?**

4.1 Mae iaith y dogfennau'n cyflwyno trosolwg yn unig yn hytrach na manylion penodol. Mae rhai o'n haelodau hefyd yn ystyried iaith y ddogfen yn aneglur - mae'n llawn o gymalau cymhleth a jargon, sy'n cyflwyno rhwystr posibl i achwynydd sy'n darllen y ddogfen gan ei fod yn anodd ei lywio'n gyflym ac yn effeithiol. Mae'r unig gyfeiriad at ymddygiad rhyngbersonol ar hyn o bryd yn cyfeirio at ACau a'u staff, ac mae hyd yn oed yr adran hon yn denau. Nid yw'r dogfennau yn amlinellu sut mae disgwyl i ACau ymddwyn, er enghraifft, o gwmpas gweithwyr proffesiynol allanol neu etholwyr.

4.2 Mae Cymorth i Ferched Cymru yn teimlo nad yw canllawiau cyfredol yn mynd ddigon pell ac felly rydym yn cytuno bod angen y canllawiau urddas a pharch mae'r pwyllgor yn bwriadu eu creu – dylai'r rhain gynnwys polisïau penodol ar gyfer aflonyddu rhywiol a thrais yn erbyn menywod, sy'n ei gwneud hi'n gwbl glir y bydd hawliwr y gweithredoedd annerbyniol hyn yn cael eu trin gyda gofal, cymorth a chyfrinachedd priodol gan nodi amserlen glir ar gyfer gweithdrefnau a disgwyliadau o ran y ffordd y bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwarchod yr achwynydd rhag unrhyw brofiadau negyddol pellach, p'un ai gan y sawl sydd wedi'i gyhuddo, y sefydliad ehangach neu'r cyhoedd. Dylid hefyd amlinellu ymddygiad o ran perthnasau rhyngbersonol.

4.3 Argymhellwn y dylid symleiddio'r broses er mwyn galluogi unrhyw un sy'n gwneud cwyn i fynd drwy un porth, lle gellir cyfeirio'r achwynydd i'r sianel gywir. Er enghraifft, gallai'r holl gwynion yn erbyn aelodau o Bleidiau, ACau, neu'r rhai hynny sy'n gweithio ar ran Llywodraeth Cymru gael eu cyfeirio i swyddfa'r Comisiynydd Safonau.

4.4. Byddai'r ddogfen gyfredol yn elwa o gael ei hysgrifennu mewn fformat hawdd i'w ddarllen, gyda chanllawiau, gweithdrefnau ac amserlenni clir yn cyd-fynd â hi, a pwyntiau bwled yn amlinellu i bwy y dylid gwneud cwyn. Yn ogystal â hynny, gallai Swyddog Cwynion dynodedig fod o fudd.

**Argymhelliad:**

- ***Bod y polisi urddas a pharch newydd yn amlinellu polisi trais yn erbyn menywod manwl yn glir ac yn drylwyr - gan gynnwys aflonyddu rhywiol – a'i fod yn cynnwys canllawiau clir ar y cod ymddygiad o ran perthnasau rhyngbersonol rhwng cydweithwyr yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru a gyda gweithwyr y Cynulliad a phobl allanol.***

- **Symleiddio canllawiau a phrosesau fel ei bod hi'n glir pwy y dylid ei hysbysu am gŵyn, yr amserlen a'r gefnogaeth y byddai achwynydd yn ei dderbyn, gorau oll mewn un porth.**

a) **A yw'r canllawiau'n glir? A yw'r iaith a ddefnyddir yn syml i'w deall?**

*"Na nid yw'n glir. Na nid yw'r iaith yn syml i'w deall."*

5.1 Ar y cyfan rydym yn teimlo bod y canllawiau yn eang ac yn denau ac nad ydynt yn rhoi arweiniad ynghylch cwynion penodol. Nid oedd yr holl ymatebion i'r cwestiwn hwn yn teimlo fod y canllawiau'n aneglur, er bod y rhan fwyaf o bobl yn teimlo eu bod yn ddi-fudd

5.2 Mae'r ddogfen yn rhoi trosolwg o'r Cod Ymddygiad yn unol â saith egwyddor: Anhunanoldeb; Uniondeb; Gwrthrychedd; Atebolrwydd; Didwylledd, Gonestrwydd ac Arweinyddiaeth. Roedd hi'n syndod nad Urddas a Pharch oedd yr wythfed a'r nawfed egwyddor gan y cyfeirir atynt ar dudalen ymgynghori'r Cynulliad mewn perthynas â'r ymchwiliad hwn. Felly, byddem yn argymell bod y rhain yn cael eu cynnwys.

5.3 Dywedodd un ymatebydd:
*"Mae'r canllawiau'n bendant ond maen nhw'n gymhleth ac angen eu hastudio am gyfnod i ddeall er mwyn sicrhau bod unrhyw gŵyn yn cael ei gyflwyno o fewn ei gofynion."* Aeth ymlaen i ddweud y byddai'n pryderu p'un a fyddai eu cwyn yn cydymffurfio â'r canllawiau, gan eu bod yn ymddangos yn gymhleth.

**Argymhelliad:**

- ***Cynnwys 'Urddas' a 'Pharch' yn yr egwyddorion craidd yn y Cod Ymddygiad ar gyfer ACau, ochr yn ochr â'r saith egwyddor arall.***

**b) A yw'r ddogfen yn eich helpu i ddeall pwy y dylech gysylltu â nhw ynghylch gwahanol fathau o gwynion?**

6.1 Er bod ymatebion i'r cwestiwn hwn yn gymysg, nid oedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn teimlo bod y ddogfen yn egluro'r mater hwn yn llwyddiannus. Er enghraifft, dywedodd un person:

> *"Na, unwaith eto mae'n hirwyntog iawn, heb unrhyw gyfarwyddiadau clir ac nid yw'n nodi'r mathau gwahanol o gwynion mewn Saesneg clir."*

6.2 Mae'r broblem yn parhau oherwydd hyd yn oed pan yw'r canllaw yn cynnig yr atebion, mae'n cymryd cryn dipyn o amser i'r darllenydd ddod o hyd i'r wybodaeth gywir. -. Ymatebodd un person i'r cwestiwn p'un a wnaeth y ddogfen eu helpu i ddeall pwy i gysylltu â nhw am fathau gwahanol o gwynion, gan ddweud: *"Do, yn y pen draw"* ond amlygwyd hefyd bod y system yn gymhleth iawn, yn gofyn am ei hastudio er mwyn ei deall yn llwyr, ac y byddent yn elwa ar help allanol er mwyn teimlo'n dawel eu meddwl eu bod yn dilyn y broses yn gywir. Mae'r lefel hon o graffu ac ymglymiad allanol yn cael ei hystyried yn rhwystr ac felly nid yw'n broses dderbyniol i sefydliad os mai'r nod yn y pen draw yw cael gweithdrefn gwyno glir a thryloyw.

**c) Pe byddech yn profi ymddygiad amhriodol, a fyddech yn teimlo'n hyderus i ddefnyddio'r weithdrefn fel y mae ar hyn o bryd?**

7.1 Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn gymysg. Nododd un unigolyn:
> *"O ran ymddygiad amhriodol byddwn yn teimlo'n fwy hyderus pe byddai gennyf sefydliad annibynnol i gefnogi fy nghwyn. Mae gwneud hynny fel aelod unigol o'r cyhoedd yn frawychus a byddai'n gwneud i mi deimlo'n agored i niwed o bosibl."*

7.2 Nododd un unigolyn:
> *"Na, nid ar ôl cael golwg arno. Mae'n ymddangos yn ddryslyd iawn a byddwn yn poeni na fyddai fy nghwyn yn cael ei thrin yn effeithiol ac yn effeithlon nac yn cael ei anfon at yr unigolyn cywir."*

Tŷ Pendragon, Caxton Place | Pentwyn, Caerdydd | CF23 8XE
Ffôn: 02920 541551 | Ffacs: 02920 736128 |
Ebost: info@welshwomensaid.org.uk | Gwefan: www.welshwomensaid.org.uk
Rhif Elusen Gofrestredig: 1140962

7.3 Nododd ymatebwyr eraill eu bod yn teimlo nad oedd cwynion blaenorol wedi cael eu trin yn dda, sy'n golygu na fyddent yn hyderus wrth ddefnyddio'r weithdrefn fel y mae ar hyn o bryd.

7.4 Sylw arall oedd:

> *"Fel etholwr ac aelod o gymdeithas Cymru, ni allaf weld sut y byddwn i'n elwa o ymgymryd â'r broses hon. Nid oes unrhyw awgrym o gefnogaeth i'r person sy'n cwyno na sicrwydd na fyddant yn cael eu diarddel mewn rhyw ffordd neu'i gilydd."*

7.5 Er i gyfran fechan o'n hymatebwyr nodi y byddent yn teimlo'n hyderus gyda'r weithdrefn gyfredol, nid oedd y rhan fwyaf yn teimlo felly. Mae hyn yn awgrymu nad yw'r broses gyfredol yn gweithio i bawb ac mae angen gwneud mwy i ennyn hyder yn y system. Dylid gwneud hyn drwy gefnogi achwynwyr a symleiddio'r canllawiau a'r broses fel nad ydynt yn feichus nac yn gymhleth i'r person sy'n gwneud y cwyn. Dylid cael gwared ar yr holl rwystrau canfyddedig lle bo'n bosibl, fel y gellir atgyfnerthu a chynnal hyder y cyhoedd yn y Cynulliad a'n ACau. Mae'n hanfodol fod y cyhoedd yn gallu dal gwleidyddion etholedig democrataidd yn atebol am eu hymddygiad, a bod unrhyw achosion o dorri'r Cod Ymddygiad y mae'r etholwyr a'r gymdeithas ehangach yn tybio eu bod yn berthnasol yn cael eu trin mor deg a thryloyw â phosibl.

**Sylwadau Pellach:**

8.1 Mae Cymorth i Ferched Cymru yn croesawu ymrwymiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad i ddatblygu polisi Urddas a Pharch sy'n datgan yn glir nad oes lle i ymddygiad amhriodol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru. Rydym wedi aros yn hir am y ddogfen bolisi hon a bydd yn helpu i sicrhau bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i holl weithwyr yn gallu deall beth a ddisgwylir o ran eu hymddygiad mewn perthynas ag urddas a pharch. Dylai hyn gynnwys meysydd trais yn erbyn menywod, gan gynnwys cam-drin domestig, trais rhywiol a bygythiadau yn y gwaith, bwlio, aflonyddu, gan gynnwys aflonyddu rhywiol. Bydd angen i ddogfen o'r fath nodi canllawiau priodol sy'n gwarchod goroeswyr pob math o drais yn erbyn menywod ac yn sicrhau bod y rhai hynny sydd wedi dioddef gweithredoedd sy'n niweidiol i'w hymdeimlad o urddas a pharch yn teimlo eu bod yn gallu dod ymlaen.

**<u>Crynodeb o argymhellion Cymorth i Ferched Cymru:</u>**

- **Dylid cyfeirio unigolion at linell gymorth Byw Heb Ofn Cymru pan fydd eu cwyn yn ymwneud ag unrhyw fath o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig neu drais rhywiol - gan gynnwys aflonyddu rhywiol.**
- **Bod y polisi urddas a pharch newydd yn amlinellu polisi trais yn erbyn menywod manwl yn glir ac yn drylwyr - gan gynnwys aflonyddu rhywiol - ac yn cynnwys canllawiau clir ar y cod ymddygiad o ran perthnasau rhyngbersonol rhwng cydweithwyr yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru a gyda gweithwyr y Cynulliad a phobl allanol.**
- **Cynnwys 'Urddas' a 'Pharch' yn yr egwyddorion craidd yn y Cod Ymddygiad ar gyfer ACau, ochr yn ochr â'r saith egwyddor arall.**
- **Symleiddio canllawiau a phrosesau fel ei bod hi'n glir pwy y dylid ei hysbysu am gŵyn, yr amserlen a'r gefnogaeth y byddai achwynydd yn ei dderbyn, gorau oll mewn un porth.**

Tŷ Pendragon, Caxton Place | Pentwyn, Caerdydd | CF23 8XE
Ffôn: 02920 541551 | Ffacs: 02920 736128 |
Ebost: info@welshwomensaid.org.uk | Gwefan: www.welshwomensaid.org.uk
Rhif Elusen Gofrestredig: 1140962

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

- **Bod polisïau a gweithdrefnau priodol yn eu lle ac yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol i sicrhau nad oes unrhyw beth yn rhwystro pobl gyda nodweddion gwarchodedig, a'r rhai hynny gydag anghenion iaith penodol ac ati rhag gwneud cwyn.**
- ***Sicrhau bod gan y rhai hynny sy'n gweithio ar hyn o bryd ar y llinell gymorth gyfredol a staff gwasanaethau cwnsela Cynulliad Cenedlaethol Cymru rywfaint o ddealltwriaeth o aflonyddu rhywiol fel math o drais yn erbyn menywod a lle bo'n briodol, eu bod yn cyfeirio goroeswyr at wasanaethau VAWDASV arbenigol.***
- **Newid y cyfyngiad un flwyddyn i hyd y Cynulliad ac un flwyddyn cyn ail-ethol o leiaf, os yw'n berthnasol. Hefyd, dylai gweithdrefnau cwyno a ollyngwyd oherwydd nad yw AC yn cael ei ail-ethol gael eu cadw ar ffeil fel bod hyn yn aros ar eu cofnod am flwyddyn os yw'r AC yn cael ei ail-ethol yn y dyfodol.**

---

Hoffai Cymorth i Ferched Cymru ddiolch i Bwyllgor Safonau Ymddygiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru am y cyfle i roi sylwadau ar y mater pwysig hwn. Mae Cymorth i Ferched Cymru hefyd yn gallu darparu tystiolaeth ysgrifenedig a llafar pellach ynghylch y mater hwn os oes angen.

Gellir cyfeirio unrhyw sylwadau neu gwestiynau am ein hymateb at:
Hilary Watson – Swyddog Ymchwil a Pholisi
02920 541 551
HilaryWatson@welshwomensaid.org.uk